CYLCHLYTHYR YR

ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

WELSH POLITICAL ARCHIVE

NEWSLETTER

RHIF 12 HYDREF 1991 No. 12 AUTUMN 1991

# CAMPAIGN GROUP PAPERS

The politics of single-issue campaign groups has a peculiar interest of its own. Unlike pressure groups which grow to become permanent fixtures, single-issue campaigns usually disappear once their target has been achieved. Regrettably, in many cases, the archives of such campaign groups do not survive making any assessment of their methods and impact a difficult task for historians.

Over the years, the Welsh Political Archive has acquired the papers of numerous pressure groups and campaigns but perhaps the best example of the papers of a single-issue campaign has been donated recently by the secretary of PARC (Pembrokeshire Against Radar Campaign).

PARC was formed in March 1990 to oppose a proposed military radar installation in the Pembrokeshire National Park. In a short space of time this small local community opposition group had harnessed the support of politicians, religious leaders and the general public both in Wales and abroad, placing intense pressure on the government to reconsider. One aspect of the campaign was the lobbying it made in the United States through American supporters. It also collected expert information on scientific, technical and environmental aspects of the proposed installation. By April 1991 the campaign came to a successful conclusion when it was announced that the plans for the radar station were to be scrapped.

The secretary of PARC, Mrs Rosemary Hawley Jarman, kept all the papers accumulated during the campaign, including correspondence, minutes, newsletters and tape recordings and she has now placed these in the care of the Welsh Political Archive. The permission of the donor is required to see these papers until the year 2002.

As this *Newsletter* was going to press, the Archive also received a large file of papers from Plaid Cymru relating to its active support for the campaign against the radar station.

*Bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Mr David Hunt, ar ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol ar 25 Medi. Gydag ef yn y llun y mae Ceidwad Adran Llyfrau Printiedig y Llyfrgell, Dr Lionel Madden.*

*The Secretary of State for Wales, Mr David Hunt, visited the National Library on 25 September. With him in the photograph is the Library's Keeper of Printed Books, Dr Lionel Madden*

**News from the Advisory Committee**

The journalist and broadcaster Mr Patrick Hannan will deliver the Welsh Political Archive's Annual Lecture in 1992. The Spring *Newsletter* will contain further details.

The 1991 lecture by Lord Blake 'An Incongruous Partnership: Lloyd George and Bonar Law' will be published shortly.

Dr Andrew Bold, Research Officer, Labour Party Wales, has replaced Mr Andrew Davies as the party's representative on the Advisory Committee.

The present members of the Advisory Committee are:

*The Librarian, Dr Brynley F Roberts (Chairman)*
*Dr Denis Balsom, UCW, Aberystwyth*
*Professor Deidre Beddoe, The Polytechnic of Wales*
*Miss Beata Brookes, Deputy Chairman of the Conservative Party in Wales*
*Mr John Clement, formerly Under-Secretary at the Welsh Office*
*Mr Emyr Daniel, Director of Programmes HTV*
*Dr Andrew Bold, Research Officer, Labour Party Wales*
*Mr Tom Ellis*
*Mr Gwyn Griffiths, Chairman Welsh Liberal Democrats*
*Lord Hooson*
*Dr Deian Hopkin, UCW, Aberystwyth*
*Mr D Elwyn Jones, Conservative Party agent*
*Professor Kenneth O Morgan, Principal, UCW, Aberystwyth*
*Mr Gareth Price, Director of the Thomson International Foundation*
*Mr T M Haydn Rees, formerly Chief Executive Clwyd County Council*
*Mr Ted Rowlands, Member of Parliament*
*Dr Terry Thomas*
*Mr Dafydd Wigley, Member of Parliament*
*Professor Gwyn A Williams*
*and from the National Library's staff: Mr Daniel Huws, Mr Gwyn Jenkins, Mrs Beti Jones, Mr J Graham Jones, and Miss Lowri Jones.*

---

**Os am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Archif Wleidyddol Gymreig cysyllter â: Gwyn Jenkins, Yr Archif Wleidyddol Gymreig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed SY23 3BU (ffôn: [0970] 623816).**

**For further information on the Welsh Political Archive contact: Gwyn Jenkins, The Welsh Political Archive, The National Library of Wales, Aberystwyth, Dyfed SY23 3BU (tel: [0970] 623816).**

## DERBYNIADAU/ACQUISITIONS

**Clive Betts Papers**

Mr Clive Betts, Welsh affairs correspondent to the *Western Mail*, has donated a large group of papers to be added to groups deposited between 1978 and 1982. Many of the papers are of political interest; there are files of printed material and correspondence deriving from Welsh general and by-election campaigns, papers reflecting the development of the major political parties in Wales, and files relating to an array of governmental activity such as the economy, education, housing, transport, broadcasting and local government. There is also a group of papers deriving from Mr Betts's period as editor of the *Welsh Nation*.

**Conservatives in north Wales**

Though the good offices of Mr Elwyn Jones, the Archive has received the records of two Conservative Party branches in north Wales.

The records of the Nefyn branch date from the 1960s and 1970s and include minute books of the branch as well as the minutes of the women's section. The records of the Ruthin Conservatives include a minute book which documents the activities of the branch from the late 1940s onwards.


**DARLITHIAU'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG**

Yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos
*Cymru yn y Ddau Dŷ / Wales in Both Houses*
Lord Cledwyn of Penrhos
£2 · 25

Darlithiau eraill y gyfres  Other lectures in the series

1. John Grigg, *Lloyd George and Wales* (1987) £1 · 50
2. Kenneth O Morgan, *The Red Dragon and the Red Flag; the cases of James Griffiths and Aneurin Bevan* (1988) £1 · 50
3. David Marquand, *History Derailed? The Route to 1979* (1989) £1 · 75

Post: Ychwaneger 50c am un ddarlith, 75c am ddwy, a £1 am dair neu'r bedair
Add 50p for one lecture, 75p for two and, £1 for three or all four

**WELSH POLITICAL ARCHIVE LECTURES**

---

**Cyhoeddiadau eraill**  **Other publications**

*Rhymney Memories*, Thomas Jones £4 · 95

*Cariad at ein Gwlad: a discourse on the love of our country* (Richard Price 1789). Cyfieithiad i'r Gymraeg ynghyd â ffacsimili or gwreiddiol / Translated into Welsh with a facsimilie of the original.
P A L Jones (gol. / ed.) £4 · 95.

Post: Ychwaneger £1 · 00 am un gyfrol, £1 · 50 am y ddwy
Add £1 · 00 for one volume, £1.50 for both

# SAUNDERS LEWIS — GWLEIDYDD O'I ANFODD

*Arbenigwr y Llyfrgell Genedlaethol ar archifau llenorion Cymraeg y ganrif hon yw Mr Dafydd Ifans, Ceidwad Cynorthwyol, Adran Llawysgrifau a Chofysgrifau. Yn yr erthygl hon y mae'n trafod gwleidyddiaeth Saunders Lewis gan ddefnyddio'r ffynhonellau ar hanes gwleidyddol Cymru sydd ar gael ymhlith archifau llenyddol y Llyfrgell.*

Bu 1985 yn flwyddyn golledus iawn i'r byd llenyddol Cymraeg. Ymhlith y rhai a gollwyd y flwyddyn honno yr oedd dau o'r cewri, dau a fuasai'n gyfeillion dros gyfnod o drigain mlynedd. Yr oedd Kate Roberts yn 94 mlwydd oed pan fu farw yn Ebrill a Saunders Lewis o fewn mis i fod yn 92 oed pan fu yntau farw ym Medi.

Yn dilyn eu marwolaeth fe ddaeth casgliad helaeth o bapurau a llawysgrifau Kate Roberts yn eiddo i'r Llyfrgell trwy gymynrodd. Mewn cymhariaeth, bechan oedd yr archif a gadwyd gan Saunders Lewis. Yr oedd 'y brenin', chwedl Lewis Valentine, wedi chwynnu ei archif yn llym. Dihidlwyd ei bapurau ganddo'n ofalus i adael y trysorau'n unig: llythyrau David Jones, yr arlunydd; llawysgrifau a theipysgrifau rhai o'i ddramâu; llythyrau ambell gyfaill cefnogol fel Robert Williams Parry a'i gydymgyrchwyr D.J. a Valentine. Yno hefyd yr oedd cyfres o lythyrau oddi wrth Kate Roberts, ac ymhlith ei harchif hithau yr oedd ei lythyrau yntau ati hi. Oherwydd hyn, gellir ailgysylltu'r ddwy ochr i'r ohebiaeth yn weddol gyfan, o'i dechreuadau yn 1923 hyd y llythyr crynedig olaf yn 1983. Gobeithir cyhoeddi'r ohebiaeth hon yn gyflawn, gyda nodiadau a rhagymadrodd, gan y Llyfrgell Genedlaethol gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol 1992.

O ddarllen yr ohebiaeth honno cawn olwg ar Saunders Lewis y gwleidydd—un o sefydlwyr y Blaid Genedlaethol yn 1925, un a fu'n Llywydd y Blaid o 1926 hyd 1939 ac yn olygydd *Y Ddraig Goch* dros ran o'r cyfnod hwnnw hefyd. Mae'n amlwg nad oedd Saunders Lewis yn mwynhau'r amlygrwydd a ddôi yn sgîl bod yn Llywydd. Mae'n achwyn yn 1928 fod ei waith politicaidd yn dwyn iddo "enw a rhyw fath o bwysigrwydd a sylw gyda'r werin bobl." Ofnai hynny'n fawr—"rhag iddo niweidio fy meddwl i." Ystyriai'r gwaith o olygu'r *Ddraig Goch* yn groes fisol a honno'n groes drom. Dywed amdano'i hun yn 1929: "Yn fuan iawn byddaf wedi darfod â llenyddiaeth, ni byddaf ond newyddiadurwr misol."

Yr oedd ganddo ormod o heyrn yn y tân yn ystod y dauddegau a'r tridegau, yn ôl ei dystiolaeth ei hun, a phob haearn yn cael cam: '. . . nid oes dim a wnaf yn drwyadl, na'r Blaid, na'r Ddraig, na gwaith Coleg, na llyfrau llên . . .' Yn rhinwedd y llywyddiaeth yr oedd galw arno i fynychu cyfarfodydd niferus i gyhoeddi neges cenedlaetholdeb ac i sefydlu canghennau newydd. Nid oedd yn hoff o'r siarad cyhoeddus hwn, yn wir tybiai ei bod yn amhosibl i siaradwr poblogaidd fod yn ddyn unplyg, a bod safle o'r fath yn angau i lenor. Aeth ymhellach na hynny yn 1923, drwy ddweud:

> ". . . ni ddywedwn air yn dragywydd dros genedlaetholdeb na Chymraeg pedfai modd cadw'n fyw rywsut arall gwmni bach aristocrataidd Cymreig a gadwai lên a chelf yn ddiogel heb falio botwm am y werin daeogion. Ond gan nad oes digon ohonom eto, rhaid i ninnau beryglu ein celfyddyd a byw fel y gallom *'sous l'oeil des barbares.'*"

Cadw Cymru'n hyfyw trwy ryw fath o Academi Gymreig aristocrataidd oedd y ddelfryd felly, mae'n amlwg.

Yr oedd y tyndra rhwng y gwleidydd a'r llenor yn berwi ynddo trwy gydol ei gyfnod cyhoeddus politicaidd. Byddai'n cynghori Kate Roberts yn gyson i ddiogelu ei dawn greadigol ar draul ei gweithgarwch gwleidyddol. Yn 1926, er enghraifft, dywedodd wrthi:

> " . . . peidiwch â gadael i'r Blaid gymryd eich holl hamdden. (Peth go od i lywydd y Blaid ei ddweud, mi wn, ond nid yw'r llenor ynof wedi marw yn y *politician* eto). Rhaid i chi orffen y nofel a nofelau eraill wedyn. Y mae hynny'n llawn cystal gwaith yn y pen draw i'r Blaid ei hun ag yw sefydlu cangen."

Ychydig o sôn sydd yn yr ohebiaeth am losgi'r Ysgol Fomio, ond ymhlith y papurau fe geir drafft llawysgrif o'i araith i'r rheithgor ym Mrawdlys Caernarfon. Erbyn diwedd yr Ail Ryfel Byd yr oedd Saunders Lewis wedi ymneilltuo o fywyd cyhoeddus y Blaid. Un rheswm am wneud hynny oedd mesur o siom personol na fu i Blaid Cymru ddilyn yr arweiniad a roddwyd ym Mhenyberth. Yr oedd yr heddychiaeth a amlygwyd gan aelodau ifainc y Blaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn anghydnaws â'i syniadau ef. Hynny a'r ffaith iddo golli ei swydd yn Abertawe yn dilyn y carchariad a'i gorfododd i ymddiswyddo o lywyddiaeth y Blaid yn 1939.

*parhad ar y dudalen nesaf*

Erbyn diwedd y pedwardegau fe'i cawn yn cwyno am lastwreiddiwch Plaid Cymru, ". . . ond dyma'r unig fudiad sydd gennym a rhaid glynu wrtho; byddai'n dywyll ar Gymru hebddo er mor ofalus barchus yw ei bropaganda".

Erbyn y chwedegau, yr iaith sy'n mynd â'i sylw, yn ddigon naturiol, yn dilyn ei ddarlith radio *Tynged yr Iaith* a sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Dadleuai Kate Roberts y dylid datgysylltu Plaid Cymru oddi wrth faterion yr iaith a'r diwylliant, ond i Saunders Lewis mater politicaidd oedd statws a dyfodol yr iaith a Phlaid Cymru a ddylasai fod yn ymladd y frwydr drwy bolisi ymosodol di-ball: "Ofn, ofn, ofn, dyna sy'n peri i'r Cymry o hyd ac o hyd geisio cadw'r iaith yn fater amholiticaidd."

Yn ystod y chwedegau fe welir ei agwedd at Blaid Cymru yn chwerwi — chwerwedd at ei sosialaeth gynyddol ac at ei diffyg arweiniad ar fater yr iaith. "Y mae Plaid Cymru yn codi cyfog arnaf," meddai adeg agoriad Llyn Celyn. "Pan ddechreuwyd ar y gwaith yn Nhryweryn y dylasai'r protestio mawr fod, nid i ddathlu colli'r frwydr."

Wrth ysgrifennu yn 1968 y mae'r pellter rhyngddo a'r Blaid y bu'n un o'i sylfaenwyr yn llydan iawn. Mynegodd ei syndod nad oedd y to cyfoes o arweinwyr hyd yn oed yn gwybod mai peidio â mynd i senedd Llundain oedd polisi gwreiddiol y Blaid. "Y maent yn cael eu holl syniadau oddi wrth y papurau sosialaidd Saesneg," meddai. "Sosialwyr Seisnig ydynt a hunan-lywodraeth i Gymru yn gwt i hynny."

Aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg oedd ei arwyr bellach a hwy oedd etifeddion y weledigaeth gynnar a gawsai ef, Kate Roberts a'u tebyg: ". . . y mae dewrder bechgyn a merched ifainc Cymdeithas yr Iaith — er gwaethaf eu Cymraeg bratiog yn *Nhafod y Ddraig* — yn ennill f'edmygedd i'n llwyr," meddai yn 1973. "Nid cwbl ofer fu'n hymdrechion cynnar ninnau."

*(In this article Mr Dafydd Ifans, Assistant Keeper in the Department of Manuscripts and Records, looks at Saunders Lewis the politician, as is revealed among his papers and those of his contemporaries.)*

---

# DERBYNIADAU / ACQUISITIONS

**Montgomeryshire Liberal Association Records**

A third group of the records of the Montgomeryshire Liberal Association has been placed on deposit in the Archive, following those deposited in 1988 and 1989 (see *Newsletter*, no 6).

This group comprises the Association's minute book, 1970–80, a rich array of Liberal Party publications and policy statements, records of internal administration, and a large number of scrapbooks of press cuttings, all reflecting the vitality of local political life.

**Newport West Labour Party**

A further group of papers from the Newport West Labour Party has been received. It includes minutes and papers of the Newport West constituency Labour Party, papers of the Labour group on the Newport Borough Council, and election material, both local and parliamentary.

**Important Memoranda**

Mr John Clement, formerly Under Secretary at the Welsh Office, has donated papers relating to the Welsh Reconstruction Advisory Council, 1942–5, and the Council for Wales, 1949–58. The papers include important memoranda on approaches to Wales's economic and social problems during the 1940s and 1950s.

**Ted Rowlands Papers**

Mr Ted Rowlands, the Labour Member of Parliament for Merthyr Tydfil and Rhymney, has donated a large number of files dating from the period 1982 to 1990. The files relate mainly to constituency affairs but also to wider issues, both domestic and international, with which Mr Rowlands has been involved.

The papers remain under embargo for the time being.

**Lord Cledwyn and Lord Tonypandy**

Two of the finest collections of political papers received by the Archive in recent years are those of two former Secretaries of State for Wales, Lord Cledwyn and Lord Tonypandy.

We are pleased to report that both Lord Cledwyn and Lord Tonypandy have recently sent additional groups of papers to the Archive.

---

*Argraffwyd yn*
*Llyfrgell Genedlaethol Cymru*
*Aberystwyth*

*Printed at*
*The National Library of Wales*
*Aberystwyth*